

Castell Caerdydd

Gweithdy Rhufeinig

Lleoliad

Cynhelir eich gweithdy yn Ystafell y Wraig Cadw Tŷ (Ystafell 1) yn y Ganolfan Addysg ac ar y Tiroedd.

Disgrifiad

Mae dwy ran i'r gweithdy hwn. Yn rhan un, bydd disgyblion yn gallu gweld yr offer a ddefnyddiwyd gan filwr y Llengoedd Rhufeinig a'r milwr Atodol. Yn yr ail ran, byddant yn archwilio sut yr oedd y Rhufeiniaid yn trefnu eu hunain mewn brwydr, cymryd rhan mewn ymarfer, a dysgu am fywyd fel ymladdwr.

Cynhelir y gweithdai gan ddau hwylusydd mewn gwisg o'r cyfnod sydd wedi pasio prawf y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DRB).

Bydd yr ymweliad hefyd yn cynnwys Taith Glywedol i Blant, gyda rhannau ar y cyfnod Rhufeinig a'r Llwybr Teulu gyda sesiwn holi ac ateb ychwanegol am y cyfnod.

Hyd

Bydd pob gweithdy yn para ychydig llai nag awr. Bydd y grwpiau yn cylchdroi drwy gydol y dydd. Nid oes taith dywys wedi'i chynnwys ym mhreis y gweithdy, ond gellir trefnu un am gost ostyngol ychwanegol. Os dewisir taith, bydd yn cymryd tua 50 munud.

Canlyniadau Dysgu Allweddol

Gweithdy 1 – Arfwisg ac Arfau

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd eich disgyblion wedi:

- ◆ Dysgu sut mae dod yn Llengfilwr
- ◆ Dysgu sut yr oedd Llengfilwr yn cael ei hyfforddi
- ◆ Dysgu am offer y Llengfilwr - yr arfwisg yr oedd yn ei gwisgo a'r arfau a oedd yn eu defnyddio
- ◆ Cyferbynnu'r Llengfilwr Rufeinig gyda rhyfelwr Celtaidd hynafol
- ◆ Dysgu dulliau Rhufeinig o ymosod ac amddiffyn.

Gweithdy 2 – Arwyddo a Dril

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd eich disgyblion wedi:

- ◆ Dysgu sut i orymdeithio fel Rhufeiniwr, gan gynnwys ymateb i orchmynion mewn Lladin
- ◆ Dysgu sut yr oedd y Rhufeiniaid yn ffurfio'r "Testudo" ("Crwban")
- ◆ Cymryd rhan mewn Ymarfer Rhufeinig (gan gynnwys ffurfio "Testudo")
- ◆ Dysgu sut yr oedd Ymladdwyr Rhufeinig yn cael eu hyfforddi.
- ◆ Dysgu sut a pham y datblygwyd gemau

Prif Gysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol

- ◆ Cyfnod Allweddol 2 (Cymru)
 - Bywyd pob dydd pobl sy'n byw yn oes y Rhufeiniaid (Hanes)
- ◆ Cyfnod Allweddol 2 (Lloegr)
 - Yr Ymerodraeth Rufeinig a'i heffaith ar Brydain

Beth Arall sy'n Rhan o'ch Ymweliad

- Defnyddio'r Daith Glywedol a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer plant
- Sioe ffilm a mynediad i ardaloedd y Tiroedd gan gynnwys y Gorthwr, y Bylchfuriau a'r Llochesi Rhyfel.
- Ymweliad â Firing Line - Amgueddfa'r Milwr Cymreig (Amgueddfa Filwrol yn y Ganolfan Ddehongli). Noder: Mae Firing Line yn cael ei rheoli yn annibynnol ac nid yw unrhyw weithgareddau a gynigir yno'n rhan o

Wasanaeth Addysg Castell Caerdydd. Efallai na fydd yr ymweliadau yn bosibl ar ddiwrnodau penodol, neu efallai y codir tâl ychwanegol

Fel arfer, mae gennym adar ysglyfaethus ar y safle yn ystod yr wythnos ond ni allwn warantu hyn.